
Adolygiad Diogelu Unedig Sengl
Single Unified Safeguarding Review

# Diweddariad ynghylch y Rhestr o Gadeiryddion ac Adolygwyr Cymeradwy

Os oes gennych unrhyw gwestiynau neu sylwadau, anfonwch e-bost at: ADUSCymru@llyw.cymru




**Y BROBLEM WREIDDIOL**

- Datgelodd tystiolaeth o’r ymchwil a wnaed anawsterau o ran nodi unigolion â’r cymwysterau priodol i gynnal adolygiadau.
- Datgelodd y Partneriaethau Diogelwch Cymunedol ymchwil anhawster o ran cael Cadeiryddion cymwys sydd â chymwysterau digonol. Darparwyd tystiolaeth a oedd yn dangos cadeiryddion gwael iawn mewn rhai achosion, a oedd yn cael eu defnyddio’n gyson gan eu bod nhw’n cynnig eu gwasanaethau ymgynghori am bris is o lawer nag eraill.
- Disgrifiodd y Byrddau Diogelu Rhanbarthol bwysau cael adolygwyr gan eu bod nhw’n ymgymryd ag adolygiadau yn ychwanegol i’w swydd o ddydd i ddydd, gan achosi iddynt ddioddef effaith gorweithio neu amharodrwydd gan reolwyr i’w rhyddhau.

**CEFNDIR**

Mae ymchwil wedi darganfod bod angen mynd i’r afael â’r materion o gwmpas capasiti Cadeiryddion ac Adolygwyr i gynnal adolygiadau drwy systemau cymorth lles, paru, hyfforddiant, achredu a rhestr ganolog o Gadeiryddion ac Adolygwyr.

**DATBLYGU’R RHESTR**

- Aeth y Grŵp Gorchwyl a Gorffen Polisïau a Phrosesau ati i ddatblygu’r canllawiau sy’n sail i’r Rhestr Cadeiryddion ac Adolygwyr Cymeradwy. Penderfynwyd:
- Mai diben y Rhestr Cadeiryddion ac Adolygwyr Cymeradwy ADUS yw rhoi mynediad i Fyrddau Diogelu Rhanbarthol a Phartneriaethau Diogelwch Cymunedol i gronfa gyfredol a therfynol o Gadeiryddion ac Adolygwyr.
- Bydd y rhestr yn nodi meysydd ‘arbenigol’ y gellir chwilio amdanynt, gan ddibynnu ar anghenion yr adolygiad.
- Bydd y rhestr yn sicrhau bod gan Adolygwyr a Chadeiryddion ddealltwriaeth ymarferol o natur ddatganoledig Cymru a’r dirwedd ddeddfwriaethol wahanol.

**FFRAMWAITH CYMWYSEDDAU ALLWEDDOL**

- Datblygwyd y fframwaith hwn er mwyn sicrhau bod gan yr holl Adolygwyr a Chadeiryddion ar y Rhestr gymwysterau priodol ar gyfer cynnal adolygiadau (gweler y ddogfen atodedig i weld y fframwaith cymwyseddau allweddol).
- Rhaid i Adolygwyr a Chadeiryddion gwblhau’r hyfforddiant ADUS er mwyn bodloni’r cymwyseddau.
- Bydd angen i Adolygwyr a Chadeiryddion sydd eisiau cael eu hychwanegu i’r rhestr ddangos sut maen nhw’n bodloni’r fframwaith cymwyseddau allweddol wrth gwblhau’r ffurflen enwebu. Bydd angen i’r unigolyn sy’n enwebu gadarnhau’r cymwyseddau hyn hefyd.

**SUT BETH FYDD Y RHESTR?**

- Defnyddir Microsoft Excel i greu’r rhestr gychwynnol.
- Bydd y categorïau ar y ffurflen yn cynnwys:
  - Enw, sefydliad, maes gwasanaeth, teitl swydd, ardal awdurdod lleol, arbenigeddau, profiad ac adolygiadau blaenorol, argaeledd ac adolygiadau sy’n mynd rhagddynt.
- Caiff enwebwyr benderfynu pa un ai a ydynt eisiau cymryd rhan yn yr ADUS y tu allan i’w hardal waith arferol ai peidio.

**YMHLE FYDD Y RHESTR A PHWY FYDD YN CAEL MYNEDIAD IDDI?**

- Bydd y rhestr ar gael i Unedau Busnes y Bwrdd Diogelu Rhanbarthol fel bod modd ei defnyddio i gomisiynu Adolygwyr pan mae angen cwblhau ADUS. Ceir mynediad drwy’r Ganolfan Gydlynu ADUS.
- Dylid nodi nad yw hon yn rhestr gynhwysfawr o’r holl Gadeiryddion ac Adolygwyr yng Nghymru, ac mewn rhai achosion, efallai na fydd dewis arall heblaw comisiynu’r adolygiad yn allanol. Pan mae hyn yn digwydd, rhaid i’r BDRh sicrhau bod yr Adolygwr yn bodloni’r cymwyseddau a nodir yn y Fframwaith Cymwyseddau Allweddol.

**ENWEBIADAU**

- Gweler Atodiad 3 yn y ddogfen atodedig ar gyfer y Templed Enwebu. Bydd angen i’r unigolyn sy’n dymuno cael ei ychwanegu i’r rhestr a’r unigolyn sy’n ei enwebu ei gwblhau.
- Bydd adolygwyr yn medru rhoi manylion am eu capasiti disgwyliedig ar gyfer ymgymryd ag ADUS a’u harbenigeddau penodol.
- Bydd y Bwrdd Rheoli Gweithredol yna’n penderfynu pwy fydd yn cael ei ychwanegu i’r rhestr.
- Yn ystod y cyfnod sefydlu bydd enwebiadau a thystiolaeth unigol yn seiliedig ar brofiad adolygu APR/CPR/DHR blaenorol, arfer da, a hyfforddiant yn cael eu derbyn.

**This document is also available in English**